

papur priordy



**Misy ny mpanavotra,
Jesoa, Zanak'Andriamanitra,
Zanak'ondry sarobidin'Andriamanitra,
Mesia, Masina.**

*Gweler y dyfyniad yn Gymraeg a'r rheswm am y dewis y tu
mewn*

**Rhifyn 319
PAPUR CHWFROR 2019**

Gair gan ein Gweinidog

Banksy

YMLWYBRODD 20,000 a mwy o bobl i dref Port Talbot dros gyfnod y Nadolig er mwyn gweld darn o graffiti ar wal garej mewn lôn gefn dawl - a do, buom ni yno hefyd! Yr atyniad? Darn o waith gan yr artist graffiti byd-enwog ac anhysbys, 'Banksy' - ac rydyn ni, yn ein tŷ ni n ffans mawr o'i waith!

Mae'r gwaith graffiti'n dangos plentyn yn mwynhau chwarae yn yr eira gyda'i sled ar naill ochr y garej, a tân yn creu cwmwl o ludw ar yr ochr arall. Mae Banksy wedi creu sawl delwedd mewn mannau cyhoeddus ar draws y byd a'i waith yn aml yn cynnwys neges wleidyddol neu gymdeithasol sy'n berthnasol i'r ardal.



Anhysbys

Does neb yn gwybod yn iawn pwy yw'r artist enwog anhysbys hwn. Mae'i waith yn ymddangos dros nos mewn mannau cyhoeddus, ac yna mae'n cadarnhau gyda fideo ar ei gyfrif Instagram mai ei waith e ydyw. Y tro hwn, dewisodd lôn dawl yn union y tu cefn i Gapel yr Annibynwyr, Gibeon, Tai-bach, Port Talbot. Mae tast da gan y boi yma! Mae'r darn graffiti nid yn unig wedi denu llawer o ymwelwyr, ond hefyd ysgogi sawl trafodaeth. Ailagorodd y clawr ar drafodaeth oesol yn ein tŷ ni, sef ai celf go iawn yw graffiti?! Rydyn ni'n gytŷn ei fod gyda llaw.

Ond ar ochr fwy difrifol, ni ellir peidio â theimlo dros berchennog y garej. O'r foment y cyhoeddodd Banksy mai'i waith e oedd y graffiti, wynebair perchennog sefyllfa ofidus iawn o orfod diogelu'r graffiti a rheoli'r miloedd a ddeuai i'w weld. Arweiniodd y cyfrifoldeb o'i warchod at nosweithiau digwsg a throdd y cwbl yn ofid gwirioneddol iddo, ac yn gost mawr. Daeth yr actor Michael Sheen, un o frodorion enwocaf Port Talbot, i'r adwy a thalu am warchod y murlun.

Dyfodol y murlun

Mae'r drafodaeth yn mynd yn ei blaen ynglŷn â dyfodol y murlun. Y farn gyffredinol yn ein tŷ ni yw y dylid ei adael fel ag y mae ac yn y man lle mae.

Wedi'r cwbl, 'graffiti' yw e, ac mae pob graffiti'n diflannu yn y pen draw. Pethau dros dro ydynt. Buom ar daith gerdded 'Banksy' drwy strydoedd Llundain beth amser yn ôl, gan ddilyn cyfarwyddiadau manwl, ond i ddarganfod bod y rhan fwyaf o'i weithiau wedi diflannu gan i rywrai beintio drostynt. Pe bai Banksy am i ni warchod y murlun, fe fyddai wedi tynnu llun ar gynfas, ei fframio, a'i adael wrth ddrws yr Oriel Genedlaethol!

Gwarchod neu beidio?

Rhaid cofio mae pethau dros dro yw pethau o wneuthuriad pobl. Ni ddylem feddwl am warchod yn barhaol y pethau sydd angen eu hadolygu, eu haddasu a'u newid. Yn wir, os nad ydym yn credu bod rhai systemau sy'n bodoli'n dod â'r gorau i eraill, ac yn gweithio er lles eraill, ein cyfrifoldeb yw eu herio ac nid ei gwarchod.

A BETH am y pethau gweladwy o wneuthuriad pobl sydd yn sugno'n hasedau ariannol er mwyn eu gwarchod? Seddau a chorau? Organ a phulpud? Capeli? Mae digon o waith gwarchod y pethau o wneuthuriad Duw arnom. Onid dyna'n blaenoriaeth? Ie, mae'r drafodaeth yn parhau!

Gweddiwn

Arglwydd,
Mae'r byd am i ni gredu
mai mewn meddiannau y ceir gwir hapusrwydd,
a bod y rheini sy'n cael boddhad
ym mhethau syml bywyd yn cyfeiliorni.

Ond at rai fel hyn y daethost,
a rhai fel hyn yr anfonaist
i gyhoeddi'r deyrnas
lle y collir pob peth
ac yr enillir popeth,
a lle mae gwir hapusrwydd
yn dod heb feddu dim
ond hyn -
adnabod Crist Iesu
a grym ei atgyfodiad
yn ein calon ac yn ein bywyd.

Derbyn nawr y calonnau diolchgar hyn,
a'u defmyddio i adeiladu
dy deyrnas,

Amen



**Gweddi o
Ei Orsedd Rasol Ef
Cyfrol 1.
Dewi Myrddin Hughes**

Mis Chwefror	Darlleniad
Wythnos 1	Luc 2:22-40
Wythnos 2	Luc 5:1-11
Wythnos 3	Luc 6:17-26
Wythnos 4	Luc 6:27-38
Gŵyl Dewi	Salm 1

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

MARGARET JONES

MARI JENKINS

ac

OLIVE LLOYD

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

SWPER GŴYL DEWI'R PRIORDY

yng ngofal

Dynion yr Eglwys

FESTRI'R CAPEL

NOS LUN, 4 MAWRTH 2019 am 7.00 yn y Festri

Pawb i ddod â'i fasn â'i lwy ei hun

Adloniant / Gweld fidio o'r Seremoni yn Eisteddfod Genedlaethol

Caerdydd pan dderbyniodd Meinir Lloyd Fedal Goffa

Syr T H Parry-Williams

Pris y Noson £5 (Plant am ddim)

Enwau ar y daflen yng nghyntedd y capel, os gwelwch yn dda.

Dewch yn llw!



APÊL MIS CHWEFROR 2019



Cynorthwyo Canolfan Byddin yr Iachawdwriaeth i gefnogi'r digartref yng Nghaerfyrddin. Gwahoddir chi i gyfrannu un neu ddau o'r nwyddau canlynol (gan gadw at y rhestr hon yn unig a sichrau bod y nwyddau'n rhai newydd, os gwelwch yn dda

Gel Cawod

Siampŵ

Brws Dannedd

Past Dannedd

Chwystrell Ddiarogli i Ddynion (Antiperspirant Spray)

Chwystrell Ddiarogli i Ferched (Antiperspirant Spray)

Sychiadau Diheintiol (ar gyfer Dwylo neu Wyneb) (Antibacterial Wipes)

Sanau i Ddynion neu Fenywod

NODER

Dim Sebon na Swigod Bath, os gwelwch yn dda

Os ydych yn dymuno cefnogi, mae croeso i chi ddod â'ch cyfraniad i'r capel.

Bydd yr apêl hon yn cau ar Ddydd Sul, 3 Mawrth 2019

Diolch

Beti-Wyn

CWRDD PLANT CYNTA'R FLWYDDYN NEWYDD
LANSIO BYWYD I BAWB



OEDFA BLANT A PHOBL IFANC
Bore Sul 13 Ionawr 2019



ER ein bod wedi ffarwelio â'r Nadolig am flwyddyn arall, roedd Capel y Priordy wedi'i haddurno, a chardiau'n cael eu dosbarthu cyn oedfa blant a phobl ifanc gyntaf y flwyddyn! Ond nid camgymeriad mo hyn! Baneri coch, gwyn a gwyrdd Madagascar oedd yr addurniadau ac roedd y cardiau'n cynnwys symbolau o Gymru a'r ynys honno. Fel yr esboniodd Beti-Wyn yn ei gair o groeso, roedd y gwasanaeth hwn yn un arbennig i lansio Apêl Madagascar yn y Priordy.

Yn dilyn y cyhoeddiadau, cafwyd unawd hyfryd ar y cello gan Catrin Owen wrth i Mali, Iestyn, Ifan a Cadi fynd ati'n eiddgar i gasglu'r offrrwm.



“Dyro gân dan fy mron, gad i'm foli” oedd yr emyn cyntaf, a ganwyd i gyfeiliant hwyliog Band y Priordy. Cafwyd cyflwyniad wedyn gan Tomos ac Ethan, ar ffurf sgwrs ddifyr wrth iddynt drafod llun o goeden fawr a oedd i'w gweld ar y sgrin. Esboniodd Tomos fod y goeden enfawr hon yn tyfu ar ynys Madagascar yng nghefnfor India. Mae'n rhoi

cysgod, bwyd a dŵr i'r anifeiliaid a'r bobl ac o'r herwydd yn cael ei galw'n Goeden Bywyd. Y goeden hon a'r geiriau 'Bywyd i Bawb' yw logo Apêl Madagascar Undeb yr Annibynwyr eleni.

Rhoddodd Jona ychydig o hanes y cysylltiad rhwng Cymru a Madagascar i ni. Soniodd am **Tomos Bevan** a **David Jones** o bentref Neuaddlwyd, Sir Aberteifi yn hwylio i F Madagascar yn 1818 i sefydlu ysgolion a chenhadaeth Gristnogol. Rai blynyddoedd yn ddiweddarach ymunodd **David Griffiths** o Wynfe yn Sir Gâr â nhw. Cyflawnodd y dynion

hyn waith arbennig ar yr ynys ac maent yn cael eu cofio hyd heddiw gan drigolion yr ynys. Er mwyn dathlu'r cysylltiad â'r



ynys, penderfynwyd lansio apêl arbennig i godi arian ar gyfer prosiectau ym Madagascar.

Cawsom ragor o fanylion am y prosiectau, sy'n gysylltiedig â'r FJKM sef Eglwys Iesu Grist ym Madagascar, drwy wyllo ffilm fer. Mae pedwar prosiect i gyd, a fydd yn cefnogi lloches i ferched anghenus sydd wedi mynd i drafferthion oherwydd tlodi, meddygfa a deintyddfa ym mhencadlys yr eglwys ar gyfer y rhai sy'n methu fforddio triniaeth mewn mannau eraill, cartref i blant amddifad rhwng 22 mis a 22 oed, a phrosiect yn y coleg diwinyddol i helpu darpar weinidogion i ddysgu sgiliau newydd megis trin y tir, fel y gallant helpu yn eu cymunedau.

Ar ôl canu'r emyn 'Dwylo ffeind oedd dwylo' ymunodd y gynulleidfa â Beti-Wyn i ddarllen rhai adnodau o efengyl Luc. Soniai'r darn am yr Iesu yn darllen geiriau Eiseia yn y synagog ac yn 'cyhoeddi newyddion da i bobl dlawd', darlenniad oedd yn cyfleu i'r dim fyrddwn y gwasanaeth.

Cafwyd cyflwyniad wedyn gan Syfi, a oedd yn bresennol yn y dathliadau yn Aberaeron dros yr haf i nodi dau can mlynedd ers i'r cenhadon fynd i Fadagascar. Yn dilyn y cysylltiadau a wnaed yno, dywedodd ei bod wedi dechrau llythyru â merch o'r un oed â hi ym Madagascar gan ddysgu am ei chartref, ei theulu, ei diddordebau ac ati. Ei dymuniad yw cwrdd â hi rhyw ddiwrnod.

Offrymwyd y weddi gan Marged, gan ddiolch i Dduw am weledigaeth a brwdfrydedd y cenhadon. Gweddïwyd am i'w hymdrechion hwy ein hysbrydoli ni wrth i ni, drwy ein hapêl, weithio dros bobl Madagascar heddiw. Ategwyd hynny yng ngeiriau'r emyn nesaf, 'Dyro dy gariad i'n clymu'.

Roedd gwestai arbennig gan Beti-Wyn i'w gyflwyno i ni sef lemur, math o fwnci, o'r enw Emyr. Roedd wedi dod yr holl ffordd o Fadagascar! Roedd e braidd yn swil ond roedd Beti-Wyn yn siarad dros y ddau ohonynt! Dim ond ym Madagascar mae'r lemur yn byw ac mae 60 rhywogaeth ohonynt. Roedd gan Emyr neges bwysig i bobl Caerfyrddin, sef bod Iesu Grist am i ni estyn ein dwylo dros y môr fel y gwnaeth y cenhadon cyntaf. Dywedodd Beti-Wyn y byddai plant yr Ysgol Sul yn cael cyfle i ysgrifennu at blant ym Madagascar, fel y mae Syfi wedi dechrau gwneud. Soniodd hi fwy



hefyd am y digwyddiadau i godi arian, sef bore coffi yn y dyfodol agos, a'r anrheg arbennig oedd ganddi i'r plant. Byddai pob plentyn oedd yn



bresennol yn cael blwch o Smarties yr un - ar yr amod eu bod, ar ôl bwyta'r siocledi, yn dychwelyd y blwch yn llawn darnau arian 20c. Roedd pawb yn fwy na hapus â'r fargen honno, yn enwedig pan addawodd Beti-Wyn y byddai'n ail-lenwi'r bocs ar y diwedd. Mae'r addewid wedi'i nodi mewn du a gwyn yn y fan hon felly bydd yn rhaid iddi gadw at ei gair!

DAETH y gwasanaeth i ben wrth i ni gyd-ganu, i gyfeiliant unigryw'r band taro, yr emyn 'Molwn di'n un teulu ynghyd' gyda phawb wedi mwynhau ac yn awchu am gael agor y bocsys Smarties.



Perfformir
Croeshoeliad John Stainer
gan
Gorau Unedig Seingar a Tŷ Tawe
Capel Y Priordy
Nos Sul 24 Mawrth 2019 am 6 o'r gloch
Unawdwyr

Efan Williams
Tenor

Gwyn Morris
Baritôn

Organydd
Meirion Wynn Jones

Tocynnau: £8 (Siop y Pentan, Swyddfa Llyfrau Llafar Cymru, neu wrth y drws)
Elw i Lyfrau Llafar Cymru



OEDFA RADIO CYMRU

Bydd Beti-Wyn a rhai o bobl ifanc y Priordy'n arwain y gwasanaeth Gŵyl Dewi ar Radio Cymru ar Fore Sul 3 Mawrth 2019



***Mae Meinir Jones yn sôn am
gyflwyniad Syfi Rolant yn ei
hadroddiad am y Cwrdd Plant a Phobl
Ifainc a gynhaliwyd ym mis Ionawr pan
lansiwyd Apêl Undeb yr Annibynwyr
Cymraeg 2018-19 – Bywyd i Bawb.
Diolch i Syfi am gael cyhoeddi'i***



***chyflwyniad yn llawn ac fel yr ymddangosodd yn Y Tyst yn
ddiweddar....***

Buodd dathliadau dros yr haf yn Aberaeron i gofio am yr amser, dros ddou gant o flynyddoedd yn ôl pan aeth cenhadon o Aberaeron i ynys Madagascar ar arfordir Affrica i ddweud am Iesu Grist. Bues i yn y dathliadau Roedd yn brofiad diddorol ac yn llawer o hwyl – fe wnes i gwrdd â phobl a phlantos o Fadagascar.

Ar ôl y dathliadau, aeth Mam i gwrdd â Hanta, sy'n rhedeg lloches i ferched ar yr ynys, er mwyn trafod sut allen ni gadw'r cysylltiad rhwng y ddwy wlad yn fyw. Meddyliodd y ddwy y gallai plant Cymru a Madagascar ddechrau ysgrifennu llythyron at ei gilydd. Sylweddolodd y ddwy bod ganddyn nhw ferched oedd yr un oedran â'i gilydd, felly dyma nhw yn cytuno y gallai'r ddwy anfon llythyrau at ei gilydd. Felly dyma Kezia a fi yn dechrau ysgrifennu at ein gilydd, mae'r ddwy ohonom ni yn un ar ddeg oed.

Kezia a fi yw dechrau'r cynllun llythyru, gobeithio bydd ysgolion Sul ar draws Cymru yn ymuno.

Yn y llythyr cynta, wnes i weud ble wy'n byw, pwy yw fy nheulu, beth yw fy niddordebau a phethau felly. Ges i lythyr yn ôl gan Kezia yn dweud bod ganddi chwaer fach o'r enw Enya sy'n 8 oed, mae Kezia'n hoffi anifeiliaid ac yn mwynhau gwersi Mathemateg. Anfonais lythyr arall ati hi cyn y Nadolig. Mae'n braf danfon llythyrau i rywun ochr arall y byd oherwydd dwi'n dysgu am bethau gwahanol, mae'n hyfryd cael ffrind o wlad arall. Rhyw ddiwrnod dwi eisiau cwrdd â Kezia.

CALENDR GO CHWITH!

Tybed a oes rhai ohonoch wedi gwneud rhywbeth go chwith rywbyrd, fel gwisgo dilledyn go chwith wrth fynd i barti neu gyfarfod? Dewch nawr, mae'n siŵr bod rhywbeth fel hyn wedi digwydd i ambell un ohonoch a'ch bod wedi derbyn pryd o dafod am ei wneud! Ond haeddu canmoliaeth mawr am wneud un peth go chwith mae'n Gweinidog a'i theulu!!

Yn dilyn awgrym ardderchog **Carys Morgans** cyn y Nadolig, aeth Beti-Wyn a'r teulu ati i greu Calendr Adfent go chwith yn ystod mis Rhagfyr!



Hynny yw, **rhoi'** yn hytrach na **derbyn** bob diwrnod yn ystod tymor yr Adfent - a'u dewis oedd cyfrannu i Fanc Bwyd Caerfyrddin. Erbyn dydd Nadolig, roedd ganddynt hamper yn cynnwys 25 eitem o fwyd, un am bob diwrnod yn yr Adfent. Cafodd yr hamper ei drosglwyddo i'r Banc Bwyd yn y



flwyddyn newydd.

Yr hyn a drawodd Beti-Wyn a'r teulu oedd cyn lleied o arian roedd yn ei gostio i gyfrannu un eitem y dydd i'r Hamper Adfent o'i gymharu â'r



arian sy'n cael ei wario ganddynt yn ystod y Nadolig. Tybed faint gostiodd y Nadolig i chi a fi? Wel, gallai Beti-Wyn fod wedi llenwi chwe hamper o fwyd i'r Banc Bwyd gyda phris y twrci oedd ar eu bwrdd nhw ddydd Nadolig!

Syniad ardderchog yw'r Calendr Adfent Go Chwith!. A bydd Beti-Wyn yn mynd

ati i wneud hyn eto ym mis Rhagfyr 2019. Does dim angen cael blwch neu fased swanc, fel y gwelwch oddi wrth y llun. Mae rhywbeth syml yn unig yn ateb y gofyn i'r dim. Wedi'r cyfan, y cynnwys sy'n bwysig!.



EGLWYS ANNIBYNNOL Y PRIORDDY



POLISI DIOGELU DATA

Mae'r Polisi hwn bellach wedi'i gwblhau a'i dderbyn gan yr Eglwys yn y Cwrdd Eglwys a gynhaliwyd ar Fore Sul 13 Ionawr 2019.

Gellir gweld y Polisi ar wefan yr eglwys drwy droi at <https://www.priorddy.org/dogfennau/polisi-diogelu-data>

Diolch yn fawr iawn i Huw LI Edwards, Ysgrifennydd Ariannol, am ei arweiniad wrth lunio'r Polisi ac i Rhodri Davies am ei osod ar Wefan yr Eglwys.



Apêl Madagascar
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

BORE COFFI

Sadwrn, 13 Ebrill 2019
10 tan 12 o'r gloch
Festri Capel Y Priorddy, Caerfyrddin
Mynediad £2
Stondynau amrywiol
Paned ffeind!
Croeso a chwmni da
Galwch heibio!

DYDD GWEDDI

Oedfa Gymraeg

Dydd Gwener, 1 Mawrth 2019 – 10.30 y bore

Eglwys Llanllwch



DALIER SYLW!



Mae Beti-Wyn yn dathlu
ei phen-blwydd arbennig ym mis Ebrill
drwy Zipo lawr ar hyd llethrau Blaenau Ffestiniog
i godi arian i Apêl Madagasgar
Undeb yr Annibynwyr!
Hoffech chi ei noddi?



DATHLU'R PASG



Y TABERNACL, CAERFYRDDIN

NOS IAU CABLYD

18 Ebrill 2019

7.00pm

OEDFA GYMUN

Y PARCHEDIG

PETER CUTTS

Caerfyrddin

DYDD GWENER Y GROGLITH

19 Ebrill 2019

10.00am (yn unig)

OEDFA BREGETHU

Y PARCHEDIG

JOHN TALFRYN JONES

Rhydaman

TAITH GERDDED Y PASG - CYTÛN

Dydd Gwener 19 Ebrill 2019 - 12 o'r gloch, gan ddechrau o'r Capel Wesle lle bydd paned ar gael ymlaen llaw

CARIO'R GROES I BEN BRYN MYRDDIN

Prynhawn Gwener y Grogolith, 19 Ebrill 2019

Gadael Maes Parcio Canolfan Bryn Myrddin am 2.30 wedi gair o weddi a chario'r groes i ben y bryn. Oedfa ar ben y bryn am 3 o'r gloch a phaned a chacen (£3) yng Nghanolfan Bryn Myrddin i ddilyn

Croeso i bawb o bob oed

Gwisgwch esgidiau synhwyrol

PLANT DEWI

GRŴP CEFNOGAETH DEONIAETH CAERFYRDDIN

BORE COFFI


Dydd Sadwrn 16 Chwefror 2019 am 10

Neuadd Ddinesig San Pedr

Pancws, Coffi, Stondinau

Mynediad £3

Croeso cynnes i bawb



AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

BYWYD I BAWB - APÊL MADAGASCAR 2018-2019

Dros y pedwar mis nesaf bydd Papur Priordy'n cynnwys manylion yr amrywiol brosiectau ym Madagascar a gefnogir gan Apêl yr Undeb

Akany Avoko 'Nid swydd yw hon. Dyma fy mywyd i!'

Canolfan breswyl i adfer ac ailhyfforddi merched ifanc yw Akany Avoko Faravohitra (AAF), gyda thua 50 o ferched yno ar hyn o bryd. Mae'r mwyafrif yn eu harddegau, rhai o dan 12 oed a rhai'n famau sengl. Cânt eu hanfon yno am iddyn nhw dorri'r gyfraith neu am eu bod wedi'u cam-drin neu eu gadael gan eu teuluoedd ac wedi bod yn byw ar y stryd.



Gwraig ryfeddol o'r enw Hanta XX sy'n rhedeg AAF, gyda thîm o 9 aelod o staff a gwirfoddolwyr lleol a rhyngwladol. 'Ein gwaith ni yw gofalu amdanynt, eu haddysgu a'u hamddiffyn. Rwy am iddynt gael uchelgais a theimlo eu bod yn rhan o gymdeithas. Ond uwchlaw popeth, rwy am iddyn nhw fod yn hapus.'

Mae dros hanner y merched yn mynd i'r ysgol leol a'r gweddill yn cael eu dysgu yn y ganolfan lle maent yn dysgu sgiliau ymarferol. Mae AAF yn helpu newid bywydau merched tlawd a bregus ym Madagascar, a hynny ar gyllideb fechan. Byddai rhagor o gyllid yn caniatáu i AAF i helpu mwy o ferched i osgoi carchar a thyfu i fod yn oedolion hapus, annibynnol sy'n gaffaeliad i'w cymunedau.

Stori Clara

Pan gollodd Clara, 9 oed, ei rhieni, cymerwyd hi a'i chwaer hŷn mewn gan ewythr. Roedd gan yr ewythr bump o fechgyn, ac ni allai fforddio anfon y merched i'r ysgol hefyd felly fe'u hanfonwyd i'r ganolfan lle mae'n cael gofal ac addysg.

COSTAU

Cadw merch yn y ganolfan am fis: £30

Gofal meddygol i un ferch am fis: tua £7

Defnyddiau ar gyfer addysg ymarferol i'r merched am fis: £150


Deunyddiau ysgol i un ferch am flwyddyn: £39



Ffynhonnell - Pecyn Apêl Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Hud a Lled – Hunangofiant Eirian Wyn


Fel capelwyr mae diddordeb mawr gyda ni i gyd i wybod mwy am hynt a helynt ein gweinidogion, a heb os mae'r hunangofiant hwn yn rhoi darlun diddorol iawn i ni am bregethwr, consuriwr, actor llwyfan a sgrin, cyflwynydd a chaplan ac yn sôn am swyddi'r amryddawn Eirian Wyn dros y blynyddoedd.



Dyma hunangofiant didwyll a difyr dros ben y gŵr hynaws o Frynaman, o'i blentyndod a'i fagwraeth yno i'w ddyddiau coleg ym Mangor a'i gyfnod yn sir Benfro a'r Meinciau, cyn dod 'nôl i Frynaman drachefn.

Yn wir, mae'n dal i fyw bywyd prysur tu hwnt, ond yng nghanol ei brysurdeb mae dwy sy'n graig iddo drwy'r holl helyntion, sef Helen Wyn, ei wraig gerddorol, a Fflur Wyn, ei ferch a'r gantores enwog.

Ar ôl darllen y gyfrol, fedrwn i ddim llai na chytuno â'r Parchedig Irfon Roberts yn ei gyflwyniad wrth iddo sôn am Eirian Wyn fel hyn:



Gwisgai Eirian yn wahanol i'r rhelyw o weinidogion eraill... ei barodrwydd i fod yn ef ei hun ac i herio confensiwn... ei hoffter o yrru ar hyd ffyrdd culion y fro ar gefn beic modur... ei frwydr ag afiechyd ac am dyslecsia sydd wedi peri cryn anhawster iddo ... mae'n

dynnwr coes heb ei ail... ond yr Eirian mae ei enaid gymaint ar dân dros Iesu Grist a'i Achos, yr Eirian a garai wneud gwahaniaeth i fywydau pobl, yr Eirian na anghofiodd mai ei waith yw canmol Duw nid ei hunan.

Rwy'n hoff iawn o drefn ac arddull y cyflwyno, trwy osod is-deitlau o fewn y gwahanol benodau. Mae hyn yn helpu'r darlennydd i

ganolbwyntio ar yr hanes a'r digwyddiadau gam wrth gam tra yn codi a rhoi'r llyfr lawr pan yn darllen.

Roedd magwrfa Eirian Wyn yn nodweddiadol o gyfoeth crefyddol a diwylliannol pentref arbennig Brynaman. 'Rhosfa' oedd yr enw ar hen ffermdy'r teulu ac wrth gwrs mabwysiadodd yr enw 'Rosfa' fel consuriwr a pherfformiwr. Fe'i bedyddiwyd yng Nghapel y Bedyddwyr Siloam, ac mae ei ddisgrifiad ohono'n ddwy ar bymtheg oed, a'r alwad a'i harweiniodd i'r weinidogaeth yn angladd ei wncwl yn cyfleu profiad dwys iawn.

Profiad newydd i mi oedd cael darllen amdano'n 'Dysgu byw gyda dyslecsia' a bod dim gwellhad i'r cyflwr hwnnw, ond sut y gallwch gael y gorau arno'n lled dda. Treuliodd dair noson yn y carchar unwaith. Mae ganddo wregys ddu mewn *taekwondo*.

Ei ofalaeth gyntaf oedd eglwysi'r Bedyddwyr yn Hermon a Star yn Sir Benfro ac mae darllen am ei brofiadau yno'n ddifyr iawn. Symudodd wedyn i fod ymysg pobl y Meinciau a Phedair Heol ac erbyn hynny roedd Helen ei wraig yn athrawes gerdd yn Ysgol Maridunum, Caerfyrddin



Dychwelodd wedyn i fod yn weinidog rhan amser ar rai o gapeli Cwm Aman, ond bellach mae'n gwasanaethu Capel Seion Newydd Treforys, ond yn dal i fyw ym mhentref Y Gwter Fawr.

Mae darllen amdano'n Gaplan Tîm Ieuentid Dinas Abertawe ar y Liberty, ei hynt a'i helynt fel actor a chyflwynydd ac am lwyddiant Fflur Wyn ei ferch, a llawer, llawer mwy wedi bod yn bleser pur i mi.

Do, cefais foddhad mawr o ddarllen hunangofiant tra diddorol Eirian Wyn ac mae'r paragraff olaf yn crynhoi bywyd y gŵr amryddawn hwn:



Pwy a ŵyr nad oes da fi dric neu ddou arall yn dal ar ôl, lan 'yn llewys yn rhywle? Dal ati sydd raid.. Dal i weinidogaethu. Dal i ddiddanu. Ac yn bendant, dal i gredu ...am taw un fel'na ydw i.

Hud a Lled: Huangofiant Eirian Wyn - Eirian Wyn / Aled Islwyn, Y Lofa 2018 : £9.99

Papur Priordy'n cofio....

WILLIAM EDWARDS

(Chwefror 1719 - 7 Awst 1789)

‘ADEILADYDD I’R DDEUFYD’

GWEINIDOG gyda’r Annibynwyr o duedd gwahanol yw disgrifiad Gwynfor Evans ohono. yn ei gyfrol *Aros Mae*. Cyfeirio ato fel ‘*y mwyaf dyfeisgar o’r criw hynod hwnnw – y penseiri gweinidogaetho’l*’. mae John Davies yn ei gyfrol *Cymru: y 100 lle i’w gweld cyn marw*



Ganed **William Edwards** yn fferm Tŷ Canol, y Groes-wen ym mhlwyf Eglwysilan ym Morgannwg (Sir Caerffili erbyn hyn) a’i fedyddio yn Eglwys Sant Ilan ar 8 Chwefror 1719, trichanmlynedd yn ôl i’r mis hwn.. Ni chafodd unrhyw addysg ffurfiol. Collodd ei dad yn gynnar iawn a bu rhaid i’r teulu symud i fferm fynyddig dipyn tlotach o’r enw Bryn Tail, yn edrych dros Glyn-taf. Yno y bu’n byw wedyn weddill ei oes.



Daeth y diwygiwr Methodistaidd **Howel Harris** i bregethu i ardal Caerffili adeg y Sulgwyn 1738 a chael dylanwad mawr ar y trigolion lleol, gan gynnwys William Edwards.

Un o’r canlyniadau oedd codi capel yn y **Groes-wen** ym 1742 ar gyfer

dilynwyr Methodistaidd Howel Harris – y capel cyntaf i’w godi gan y Methodistiaid yng Nghymru. Cafodd ei adeiladu dan gyfarwyddyd William Edwards. Roedd cynghorwyr fel

Thomas Pryce, Plas y Watford ac yntau’n arwain y gwasanaethau ond datblygodd cweryl gan fod Harris yn mynnu aros y tu mewn i Eglwys Loegr, derbyn y Cymun yn eglwys y plwyf a chladdu ym mynwent yr eglwys. Bu ymwahanu ym 1751 a chollodd y Methodistiaid eu gafael ar y capel; ac erbyn 1752 daeth y Groes-wen yn eglwys Annibynnol.



Cafodd William Edwards ac un arall o gyn-gynghorwyr y Methodistiaid Thomas William (1717- 65), eu penodi'n gyd-weinidogion ac mewn amser, daeth y sacramentau i'w gweinyddu yno a'r meirw i'w claddu yn y darn tir yn ymyl y capel a ddaeth yn fynwent. Ceir yr hanes yn gryno yn *Capeli Cymru*, D Huw Owen.(2005). Bu William Edwards a Thomas William yn cydweinidogaethu am dros 20 mlynedd ond collwyd yr olaf yn 48 oed pan oedd ar daith bregethu yn y Rhondda. Parhaodd William Edwards wedyn i ofalu am y Groes-wen wrth ei hunan hyd ei farw,

Roedd William Edwards hefyd yn saer maen hunan-ddysgedig. Mae'n debyg iddo ddysgu'i grefft wrth sylwi ar adeiladwaith Castell Caerffili. gweld crefftwyr lleol wrth eu gwaith, ymwneud â Ffwrnais Caerffili a gefeiliaid Machen a Maesaleg ac adeiladu efail haearn pan dreuliodd cyfnod yn ei ugeiniau cynnar yng Nghaerdydd..

Cafodd gomisiwn i adeiladu pont newydd dros Afon Taf ym Mhontypridd. Ni fu'r gwaith heb ei anawsterau. Golchwyd ei bont gyntaf i fwrdd a syrthiodd yr ail a'r drydedd ond llwyddodd gyda'i bedwaredd ymdrech ym 1756 ar ôl addasu'r adeiladwaith. Hon oedd y bont rhychwant sengl hwyaf



yn y byd ar y pryd. Mae John Davies yn nodi pa mor brydferth oedd y bont, yn enwedig gan ei bod hi'n wreiddiol ac yn sefyll mewn amgylchedd cwbl wledig y pryd hwnnw. Canwyd clodydd y bont gan feirdd Cymraeg o'r 18fed hyd yr 20fed ganrif.

Bu William Edwards yn gyfrifol am adeiladu neu

gynllunio nifer o bontydd eraill yn ne a gorllewin Cymru ac mae H P Richards yn y gyfrol *William Edwards - Pensaer, Adeiladydd, Gweinidog* yn olrhain eu hanes. Daeth tri o feibion William Edwards a'i briod Margaret, sef Thomas, David ac Edward hefyd yn adeiladwyr pontydd,

Cafodd William Edwards ei gyflogi yn ogystal gan y diwydiannwr egnîol Syr John Morris (1745-1819) i gynllunio'r dref a elwir heddiw'n Dreforys. Yn ystod y gweithgarwch hwn ymddiddorodd yn natblygiadau crefyddol yr ardal a manteisiodd ar y cyfle i gwrdd ag anghenion addolwyr lleol drwy adeiladu Capel Libanus ym 1782 gyda chymorth John Morris a chyflogwyr eraill. Ar ôl agor Capel y Tabernacl, Treforys ar gyfer yr Annibynwyr

Cymraeg ar 3 Ionawr 1873, daeth Libanus i'w ddefnyddio gan yr addolwyr di-Gymraeg. Mae bellach yn Eglwys Efengylaidd.

A throi'n ôl at Gapel y Groes-wen, mae **cofeb** ar y wal y tu ôl i'r pulpud i William Edwards yn cynnwys y geiriau '*adeiladydd i'r ddeufyd*'. Mae Gomer M Roberts yn ei gyfrol *Crwydro Blaenau Morgannwg* yn esbonio mai Syr William Goscombe-John, cerflunydd enwog, luniodd y gofeb '*ac arni darlunir y pontwr yn craffu ar gynllun y bont (mi dybiaf) a'r bont ei hun yn y cefndir.*' Dadorchuddiwyd y gofeb gan Syr Alfred Thomas AS (Arglwydd Pontypridd wedi hynny a diacon yng Nghapel y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd).



Mae'n werth ymweld â mynwent y capel sy'n cael ei hadnabod fel '*Abaty Westminster Cymru*' gan fod cymaint o bobl enwog wedi'u claddu yno, yn cynnwys y bardd-bregethwr William Williams (Caledfryn), Evan Evans (Ieuan Gwynedd), gweinidog a newyddiadurwr a Cadwaladr Tawelfryn Thomas, gweinidog a hen-daïd Vaughan Roderick, y newyddiadurwr gwleidyddol.

Nid yn y fynwent hon mae William Edwards yn gorwedd ond yn hytrach ym mynwent Eglwys Sant Ilan yn Eglwysilan. Dyma hefyd lle gorwedd ei dad, Edward David, un a gollwyd mewn llif wrth iddo geisio croesi'r Afon Taf pan oedd yn dychwelyd adref o ffair yn Llantrisant ym 1726. On'd yw hi'n eironig mai un o'i feibion a gododd y bont gerrig gyntaf ar draws Afon Taf yn y cwm, rhyw ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, gan ei gwneud yn ddianghenraid i bobl rydio'r afon wrth



deithio i farchnad Llantrisant?

Bu farw William Edwards ar 7 Awst 1789, ychydig o fisoedd ar ôl ei wraig, yn dilyn salwch maith. Ar y diwrnod hwnnw collwyd person arbennig iawn. a'i sêl fel efengylwr gymaint os nad yn fwy na'i sêl fel saer maen.





CHWARAEON MIC 2019



Tudalen Ieuenctid@Priordy

Pêl-Droed a Phêl-Rwyd MIC



Llongyfarchiadau enfawr i bawb a da iawn y tîm pêl-droed uwchradd a'r tîm pêl-rwyd uwchradd am ennill!

Lluniau mewn man arall yn y papur hwn. Diolch arbennig i Luned am drefnu ar ran Y Priordy.



Gŵyl Dewi - Gwasanaeth yr Ysgolion Sul bore Sul, 24 Chwefror am 10 o'r gloch ym Mhenuel, Heol Y Prior. Plant i wisgo eu gwisgoedd Cymreig.



Dyddiadur	Ysgol Sul	PIP
Chwefror 3	Ysgol Sul	PIP i'r oedfa
Chwefror 10	Ysgol Sul	PIP ar daith
Chwefror 17	Ysgol Sul	PIP i'r oedfa
Chwefror 24	Oedfa Gŵyl Dewi	*

Cwrs Ieuenctid - Coleg y Bala

1 - 3 Mawrth 2019

ar gyfer Blynnyddoedd Ysgol 7 i 11

I archebu lle cofrestrwch ar lein -

colegybala.org

neu ffoniwch

01678 520565 am ffurflen.

Facebook: CWRS.IEUENCTID

Instagram: CWRSEIUENCTID

Neu cysylltwch â Beti-Wyn



Cofiwch lenwi
eich blychau
Smarties i
Apêl
Madagascar!

Ydy chi'n bwyta sioced Masnach

Deg? Dyma'ch cyfle. Mae'n Bythefnos Masnach

**Deg o 25 Chwefror tan 10 Mawrth
2019**

**Hwyl am y tro,
Beti-Wyn**




**CHWARAEON MIC
2019**



FY NHAITH I CIWBA

Ym mis Ebrill 2018 es i i deithio am saith mis o amgylch Canol America a De America - teithiais drwy Fecsico, Guatemala, Periw, Ecwador, Colombia ac rwyf am sôn am yr hyn wnes i ddysgu ar fy nhaith o amgylch Ciwba.



Pam Ciwba? Wel, mae'n ynys ddiddorol sydd â llawer o hanes ac mae'r ffordd o fyw'n hollol wahanol i'n un ni. Ac rwyf wastad wedi mwynhau teithio er mwyn dysgu mwy am y byd a'i bobl.

Ciwba yw'r ynys fwyaf ym Môr y Caribî, gyda phoblogaeth o



11,000,000. Mae'r Ynys wedi'i lleoli rhwng Môr Iwerydd, Môr y Caribî a Gwlff Mecsico. Mae'r tywydd yn braf drwy'r flwyddyn gyda thymor y corwyntoedd ym mis Medi a Hydref. Mae

ecoleg y wlad yn bwysig gan fod yr ail rîff gwrel fwyaf yn y byd yma ac mae Hafana a Trinidad yn ddinasoedd sydd yn Safleodd Treftadaeth y Byd UNESCO.

Felly, beth oedd fy argraff gyntaf wrth fynd o'r maes awyr yn y tacsî hen-ffasiwn i Hafana? Roeddwn wedi clywed am yr hen adeiladau trefedigol, y ceir Americanaidd, y sigârs, Fidel Castro a'r miwsig. A dyna'n gywir fel roedd hi!

Hanes cythryblus sydd i'r wlad. Indiaid Taino oedd y brodorion cyntaf sef ffermwyr heddychlon. Yna darganfyddodd Christopher Columbus yr ynys ym 1492 ac ychydig ar ôl hynny glaniodd y 'Conquistadors' o Sbaen i reoli, gan droi'r wlad yn Gatholig a Sbaenig a'r brodorion yn gaethweision. Ar ddiwedd yr 19fed ganrif bu rhyfel rhwng Sbaen a'r Unol Daleithiau dros y wlad ac yn fuan ar ôl hynny roedd Hafana'n

cael ei rheoli gan gwmnïau mawr o'r Unol Daleithiau a'r Maffia. Roedd Hafana'n ddinas lewyrchus tra bo gweddill y wlad yn dlawd, y bobl yn anllhythrennog a'r system iechyd yn wael. Ym 1952, daeth yr unbennaeth Batista i rym ond cododd grŵp gwleidyddol **Fidel Castro** (→) a **Che Guevara** (↓) yn ei erbyn. Bu rhaid i'r grŵp guddio ym mynyddoedd Sierra Maestra am flwyddyn i gynllwynio chwyldro.



Bues i'n ffodus i allu dringo'r mynyddoedd hyn a



dilyn llwybr a gweld pencadlys Castro a Che. Ym 1959, gorymdeithiodd y grŵp o'r mynyddoedd a gorchfygu byddin y Llywodraeth a chreu chwyldro drwy'r wlad. Y peth cyntaf a wnaeth Castro oedd cymryd y tir oddi ar y bobl gyfoethog a'i rannu'n gyfartal rhwng yr amaethwyr tlawd – gan gynnwys tir ei dad! Dihangodd llawer o'r bobl gyfoethog o Giwba i'r Unol Daleithiau. Ddwly flynedd yn ddiweddarach ceisiodd yr Arlywydd Kennedy anfon dros fil a hanner o'r alltudion yn ôl i Giwba i geisio gorchfygu Castro gan lanio yn y

'*Bay of Pigs*'. Doedden nhw ddim yn llwyddianus ac yn dilyn hynny rhoddodd yr Unol Daleithiau embargo ar Giwba. Roedd yr embargo'n golygu nad oedd hawl gan Giwba i gysylltu gyda llawer o wledydd pwerus eraill na chyfnwid unrhyw nwyddau â hwy. Erbyn heddiw dyw Ciwba ddim ond yn gallu masnachau gyda phum gwlad – Feneswela, Tsieina, Brasil, Sbaen a Chanada gan fod yr embargo'n parhau. Mae'r berthynas â'r Unol Daleithiau'n dal yn ansefydlog ac o'r herwydd does yna'r un McDonalds na KFC yn y wlad!

Ar ôl y Chwyldro penderfynodd Castro dargedu tri maes - Addysg, Iechyd, a Diogelwch. Mae addysg gynradd ac uwchradd yn orfodol ac am ddim a phob plentyn yng Nghiwba'n gwisgo'r un wisg ysgol er mwyn cynrychioli cydraddoldeb. Cyfartaledd llythrennedd y wlad yw 99.8%, sy'n ei gosod ymhlith y deg uchaf yn y byd – dyw hyn ddim yn ddrwg am wlad sy'n cael ei nodi fel gwlad Trydydd Byd! Erbyn hyn, mae system iechyd Ciwba'n yn enwog dros y byd hefyd, gydag oedran byw o 76 oed i ddyn a 79 oed i fenyw ar gyfartaledd.

Mae'r wlad yn llawn o bethau i'n hatgoffa o'r chwyldro ac mae yna

lawer o barch at yr arweinydd o hyd. Ar fy nhaith, gwelais fedd Fidel Castro yn Santiago de Cuba a bedd Che Guevara yn Santa



Clara. Hefyd, gwelais Fae Guantanamo lle mae carchar gwarthus yr Unol Daleithiau, llun **Harri Morgan** y morleidr mewn caer yn Santiago de Cuba, y falwoden leiaf yn y byd, adar bach y si a milltiroedd o draethau euraidd.

Un o'r pethau a'm tarodd fwyaf oedd pa mor gyfeillgar yw'r bobl. Er eu bod mor dlawd roedden nhw'n rhannu popeth! Roedd y

strydoedd o hyd yn llawn cerddoriaeth '*salsa*' a '*reggaeton*' a byddai plant, teuluoedd a phobl hŷn yn ymgynnull ar y stepen drws neu ar y sgwâr i chwarae dominôs, dawnsio neu fwynhau *cuba libre* a sigâr!

BYDDWN yn argymell i unrhyw un ymweld â'r ynys unigryw a diddorol hon fel gwnes i, Mam, Anti Margaret a'n ffrind Gwyneth!



THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

yn cyflwyno

MERCHED CAERDYDD

gan

Catrin Dafydd

a

NOS SADWRN O HYD


gan

Roger Williams

Nos Lun a Nos Fawrth 1 a 2 Ebrill 2019 am 7.30

Canolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin

☎ 01267 611600



GWASANAETH CYNTA'R FLWYDDYN NEWYDD

**Catrin Jones a'r
Merched**



**Aelod Newydd
Gweler y Rhwydwaith**



AGOR Y GAIR YN YSGOL Y DDERWEN



DYLANWADAU DA

MAE lle gennym i ddiolch am y gwahanol ddylanwadau da a fu arnom drwy gydol bywyd, yn enwedig dylanwad Iesu. Dyna oedd bwrddwn y neges a gyflwynwyd i ni yng Nghwrrdd Gofalaeth cyntaf y Flwyddyn Newydd yn y Priorddy ar fore Sul 6 Ionawr 2019.

Roedd yr oedfa yng ngofal

Catrin Heledd Jones a'r merched Heledd a

Rhiannon. Buan iawn y llwyddodd y tair i gipio sylw a diddordeb y gynulleidfa wrth iddynt olrhain y dylanwadau a fu arnynt ym more oes a thros y blynyddoedd. Mae'r rheiny'n helaeth ac amrywiol iawn ac yn cynnwys cartrefi



a bywyd teuluol, fferm Hengil Fach ym Mheniel, ardaloedd cefn gwlad Sir Gâr, Clwb Ffermwyr Ifainc Dyffryn Tywi a Chapel y Priorddy, Caerfyrddin. Gwyddom yn dda, wrth gwrs, am gyswllt Catrin a'r teulu â'r Priorddy, ac am gyfraniad nodedig **DT ac Enid Jones, Maelor** gynt, dros yr achos am flynyddoedd maith.



Mae lle cynnes iawn yng ngalonnau'r merched i'r dylanwadau gwirioneddol werthfawr a fu arnynt a'u dyled i Iesu – un sy'n barod i fod yn gymar i ni i gyd ar daith bywyd yn ystod y flwyddyn newydd hon, beth bynnag yw'n hamgylchiadau, gan amlygu llawer o amynedd, addfwynder a chariad atom.

Cawsom ddatganiad hyfryd gan Heledd a Rhiannon o'r emyn *Ein Traed a'n Dwylo* i gyfeiliant Meinir Lloyd ar y piano a diolchi i'r tair hefyd am baratoi testun PwylwPwer i gydfynd â'r oedfa. Cymerwyd rhan yn ogystal gan Non James (Cana) a Joanne Richards (Bancyfelin).

Bu cyfle i ni gydgyuno gyda'n Gweinidog a hyfryd oedd croesawu aelod newydd i'r Priorddy, sef Y Parchedig Rosan Saunders (Gweler

y Rhwydwaith). Cafodd ein Gweinidog gymorth Mair Jones (Cana), Lyn Jones (Bancyfelin), Philip Jones a Gareth Gravell (Y Priordy) i weini'r Cymun. . Y cyhoeddwr oedd Gareth Gravell a'r casglyddion oedd Siwan, Gwenan ac Elliw. Roedd Janet Davies wrth yr organ.

BU'N oedfa arbennig ym mhob ffordd gan gynnig dechrau bendithiol iawn i flwyddyn newydd arall yn ein hanes.

 RHAGHYSBYSIAD GŴYL YR ORSEDD – GORFFENNAF 2019 Rhagflas o'r Prif Weithgareddau 	
Dydd Llun 1 Gorffennaf	Agoriad swyddogol arddangosfa Gŵyl yr Orsedd yn y Llyfrgell.
Nos Fawrth 9 Gorffennaf	Darlith ar lolo Morganwg gan Geraint H Jenkins yn Y Llwyn Iorwg
Nos Fercher 10 Gorffennaf	Noson i ddadorchuddio'r plac gan yr Archdderwydd yn cynnwys bwffe ac adloniant
Nos Wener 12 Gorffennaf	Taith 'Cerddi'n Cerdded' drwy'r dref gyda noson dafarn yng nghwmni Gwilym Bowen Rhys yn Y Llwyn Iorwg
Dydd Sadwrn 13 Gorffennaf	Gŵyl Ganol Dref ym Mharc Myrddin gyda'r Orsedd fel thema o dan ofal Menter Iaith Sir Gâr
Dyddiad i'w drefnu	Lansio llyfryn a chymeriad lolo Morgannwg yn Yr Egin

Beth am droi at
Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org



YR WYTHNOS WEDDI AM UNDEB CRISTNOGOL 2019

Cynhaliwyd oedfa gydenwadol ar Dddecrau'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol ar Nos Sul 20 Ionawr 2019 yn **Eglwys Crist, Caerfyrddin**.



Thema'r oedfa eleni oedd *Cyfiawnder yn unig a ddilyni* ac roedd Eglwysi Indonesia wedi paratoi'r deunyddiau..

Meddai Bob Fyffe, Ysgrifennydd Cyffredinol, Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon wrth gyflwyno'r deunyddiau hyn:

Mae Eglwysi Indonesia, sydd wedi cyfrannu'r deunyddiau, yn llefaru yng nghyd-destun amrywiaeth grefyddol ac ethnig, lle mae pwyslais cryf ar yr angen am undod a ganfyddir o fewn amrywiaeth, undod ar sail cydsefyll a chydweithredu. Maent hefyd yn pwysleisio materion yn ymwneud ag anghyfiawnder economaidd a'r modd mae amrywiaeth grefyddol yn gorfod wynebu heriau radicleiddio. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni fyfyrio ynghylch y cyd-destun rydym ninnau'n gweddio am undod Cristnogol ynddo. Sut mae rhaniadau o fewn ein cymdeithas ninnau yn hyrwyddo rhaniadau yn yr Eglwys? Sut mae anghyfiawnder yng nghyd-destun Prydain ac yng nghyd-destun Iwerddon yn herio ein hymdrechion i gyd-fyw fel Cristnogion?



Cymerwyd rhan yn yr oedfa ddwyieithog hon gan wahanol gapeli ac eglwysi'r cylch. Yn cynrychio'r Priordy roedd ein Gweinidog a Gareth Gravell. Y pregethwr gwadd oedd y **Dra Barchedig Ddr Sarah Rowland Jones, Deon Eglwys Gadeiriol Tyddewi**. Gwnaethpwyd casgliad at Gymorth Cristnogol.



Ar bob bore'r Wythnos Weddi cynhaliwyd myfyrdod byr yn y Capel Wesle ac eithrio bore Llun pan fu yng Nghapel y Bedyddwyr Saesneg. Roedd y myfyrdod ar y bore Mawrth yng ngofal ein Gweinidog.



CANOLFAN HEOL AWST EGLWYS Y BEDYDDWYR SAESNEG



<i>Phil Stephenson Cadeirydd</i>	<i>Janet Mock Ysgrifennydd</i>	<i>Dianne Stephenson Trysorydd</i>
---	---	---

Annwyl Mr Evans

Rwy'n ysgrifennu atoch ar ran Canolfan Galw-i-Mewn Heol Awst, i gydnabod yn ddiolchgar eich cyfraniad caredig yn y Priordy at ein Cinio Nadolig. Mae'r digwyddiad wedi mynd o nerth i nerth dros y blynyddoedd ac rydym yn credu'i fod yn diwallu gwir angen yn ein cymuned leol. Mae'r Nadolig yn gallu bod yn gyfnod anodd i'r rhai sy'n galaru, neu heb deulu, neu heb fodd i ddathlu'r Ŵyl yn y ffordd draddodiadol.

Byddwn yn ddiolchgar iawn pe baech yn gallu pwysleisio wrth eich aelodau fod eu haelioni wedi gwneud gwir wahaniaeth ac rydym yn ddiolchgar iawn am eu cefnogaeth. Blwyddyn newydd da i chi i gyd fel eglwys, a diolch am eich caredigrwydd a hefyd eich cefnogaeth.

Yn gywir

Dianne Srephenson

Llythyr a dderbyniodd Adrian Evans, ein Trysorydd, yn ddiweddar

Brecwast PIP, a mwy!

Bore Sul, 10 Chwefror
am 10.15 yng Nghaffi Pethau Da

Cwrdd yn y Capel am 10
Cerdded i *Pethau Da* erbyn 10.15
(pawb i ffeindio ffordd eu hunain adre)
Pris £1.50

Diolch i'r Ysgol Sul am gyfrannu at weddill y gost
Enwau i Beti-Wyn cyn gynted â phosib!



*Pethau da**



‘Agor y Gair’



*Cyfres Newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg
yng Nghaerfyrddin*

Boreau Mercher 27 Chwefror a 6, 13, 20 Mawrth 2019

11.00 tan 12.00

Canolfan ‘Yr Atom’, Stryd y Brenin, Caerfyrddin

Arweinwyr

Y Parchedig Peter Cutts a’r Parchedig Beti-Wyn James

Croeso cynnes iawn i bawb

Manylion pellach

☎01267 237696 ☎01267 236658

**Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin
Caerfyrddin?**

Trowch at: cyfundeb.com?



DRWS AGORED

FESTRI’R PRIORDY

BORE IAU 14 Chwefror 2019


Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11

Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys



DADORCHUDDIO PLAC

**Bydd plac glas i anrhydeddu Delme Thomas yn
cael ei ddadorchuddio gan Gymdeithas yr Hoelion
Wyth, ar sgwâr pentref Bancyfelin ar nos Wener, 5
Ebrill 2019. Amser a threfn y noson i’w cadarnhau.
*Croeso i bawb.***



BORE COFFI CYMORTH CRISTNOGOL

Dydd Sadwrn 23 Mawrth 2019 - 10 tan 12

Capel y Bedyddwyr Saesneg

PYTHEFNOS MASNACH DEG

25 Chwefror -10 Mawrth 2019



- *Cymru oedd y wlad Fasnach Deg gyntaf yn y byd*
- *Rhydaman oedd y dref Fasnach Deg gyntaf yng Nghymru*
- *Bu Sir Gaerfyrddin yn sir Fasnach Deg er 2007*
- *Ar hyn o bryd mae 21 o ysgolion yn ein sir wedi ennill Gwobr Ysgol Cyflawni'r Deg ac yn hedfan baner Masnach Deg.*

Newyddion o gwmpas y Sir

Llanelli

Yn ddiweddar, enillodd grŵp Masnach Deg Llanelli a'r cylch statws swyddogol Masnach Deg yn dilyn rhaglen gyffrous o ddigwyddiadau a gweithgareddau.

Caerfyrddin

Dros yr haf cymerodd ysgolion lleol ran mewn Cwpan Byd Masnach Deg a drefnwyd gan Polly Seton. Cynhaliwyd y gystadleuaeth yn ysgol Tre Ioan gydag Ysgol Nantgaredig yn curo Ysgol Parc Waun Dew o drwch blewyn mewn rownd derfynol gystadleuol iawn. Enillodd Ysgol Llansteffan y gystadleuaeth posterï.

Castellnewydd Emlyn

Yn ddiweddar trefnodd y grŵp Masnach Deg lleol gwis tafarn poblogaidd iawn. Derbyniodd yr enillwyr fananas MD. Cynlluniodd grŵp sgowtiaid blac Masnach Deg a osodwyd ar goeden Masnach Deg Emlyn yr Hydref yma.

Rhydaman

Mae'r grŵp Masnach Deg lleol wedi cyfrannu pêl-droed Masnach Deg fel gwobr raffl ar gyfer ffair haf Ysgol Dyffryn Aman. Hefyd gwerthwyd cacennau bach siocled Masnach Deg a dosbarthwyd sticeri a thaflenni i'r nifer fawr a ddaeth ar y diwrnod. Cynhaliwyd gweithdai Masnach Deg yn Ysgol Bro Banw. Roedd y grŵp Masnach Deg wedi bod yn brysur iawn yn ystod carnifal y dref, yn hyrwyddo neges Masnach Deg yn ystod y dydd.



Masnach Deg yn ein hysgolion

Bwriad gwobrau Masnach Deg yw hyrwyddo dysgu, hwyl a gweithredu. Eleni,

enillodd Ysgol Dewi Sant ac Ysgol Peniel Y Wobr Ysgol Cyflawni'n Deg clodwiw ac maent yn hedfan baner Masnach deg.

Y llynedd, gwnaeth 3,000 o bobl mewn 77 o gymunedau yng Nghymru rywbeth arbennig dros Bythefnos Masnach Deg.

Masnach Deg yn gwneud gwahaniaeth.

	<i>Cynorthwyodd gwerthiant y gwin hwn i gynnal meithrinfa ar gyfer plant cyn ysgol yn Ne Affrica</i>		<i>Cyfrannodd gwerthiant y siwgr hwn at ailadeiladu to ysgol</i>
---	--	---	--

MAE pethau bach yn gallu gwneud gwahaniaeth!

CWIS CHWEFROR CWIS BACH Y MIS BACH!

Mae Pob Ateb yn y Beibl ac yn dechrau gyda'r llythyren 'CH'

1	CH							
2	CH							
3	CH							
4	CH							
5	CH							

Cliwiau

1	Fel dyfroedd Mara (Exodus 15)
2	Un o ynysoedd Groeg. Hwylodd Paul gyferbyn â'r ynys hon ar ei daith i Gaersalem (Actau 20)
3	Rhywbeth wnaeth Abraham ynddo'i hun mewn anghrediniaeth (Genesis 17)
4	Dinas yn Syria (1 Cronicle 18)
5	Tref ar gwr gogleddol Môr Galilea, ar ochr orllewinol loddonon (Mathew 11)

***Rhowch gynnig arni – a dod i adnabod y Beibl yn well!
Atebion yn y Rhifyn nesaf***

Mi dderbyniais bwt o lythyr ..

FAINT ohonom ni sy'n sgrifennu llythyrau'r dyddiau hyn? Dim llawer, siŵr o fod.

Ar ddydd Sul olaf mis Ionawr daeth criw o blant a phobl ifanc ysgol Sul y Priordy, Caerfyrddin, ynghyd i lunio llythyron i anfon mas at blant a phobl ifanc ym Madagascar.



Esboniodd Elinor Wyn Reynolds wrth y criw am y bobl ifanc a'r plant sy'n byw yn y lloches i ferched, Akany Avoko Faravohitra. Mae'r lloches i ferched yn un o'r prosiectau yr ydym ni'n eu cefnogi yn ein hapêl. Dangosodd Elinor ffilm fer am y lloches oedd yn esbonio ychydig am y cefndir ac yn dangos y bobl yn byw eu bywydau yno.

Mae'r lloches yn cymryd merched sy'n dod o gefndiroedd tlawd sydd wedi torri'r gyfraith am fod eu bywydau'n anodd a phethau wedi mynd i'r pen arnynt. Fel arfer maen nhw wedi'u dal yn dwyn mân bethau. Yn hytrach na mynd i'r carchar, mae'r merched yn cael lle yn y lloches a daw'r lloches yn gartref iddyn nhw a'r bobl yno'n deulu. Maen nhw'n




cael addysg yno ac yn dysgu pob math o bethau, o grefftai i goginio. Mi fyddan nhw mewn gwell lle i fynd mas i'r byd i chwilio am waith ar ôl bod yn Akany Avoko Faravohitra.

Menyw hyfryd o'r enw Hanta Randrianarimalala sy'n rhedeg y cartref. Bu

Hanta'n byw mewn cartref tebyg ei hun. Pan oedd hi'n ifanc, cafodd hi gyfle i ddod i Gymru i weithio ym Mhen-rhys yn y Rhondda, ac mae gan Gymru le arbennig yn ei chalon hi. Mae Hanta yn dod yn fath o

fam i'r merched sydd yn y lloches, ac mae hi'n eu helpu nhw pan fod yn rhaid iddyn nhw fynd i'r llys i bledio'u hachos. Mae'r llysoedd yn fwy na hapus pan fo'r merched yn dod o dan ofal Hanta.

Ysgrifennodd y criw'r Priordy llythyrau unigol at eu ffrindiau newydd ym Madagascar. Yn y llythyron fe wnaethon nhw sôn am eu teuluoedd, am eu diddordebau ac am fywyd yng Nghymru yn gyffredinol. Tynnwyd lluniau hefyd gan rai o'r criw iau. Anfonwyd cyfarchion cynnes o Gymru at y criw ym Madagascar. Bydd y pecyn llythyron yn cael eu hanfon mas at Hanta er mwyn iddi hithau gael rhannu'r negeseuon gyda'r plant a'r bobl ifanc yno.



DYMA gychwyn perthynas newydd a chynhyrfus rhwng plant a phobl ifanc Cymru a Madagascar.


GWASANAETH PASG CARTREF PLAS Y DDERWEN
Bore Gwener – 12 Ebrill 2019 – 11 o'r gloch
gyda'n
Gweinidog
Croeso i bawb



CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY
Nos Fercher 6 Mawrth 2019 am 7 yn y Festri
*Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch
wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd
os gwelwch yn dda*

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY A CANA A BLAENORIAID
BANCYFELIN

Nos Fercher, 20 Mawrth 2019 am 7 yn Festri'r Priordy



COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R BLWCH CETRYS YN Y CYNTEDD

Y TYST
50c y rhifyn!
Cysyllter â Sulwyn Thomas



TUDALEN BLAEN - PAM Y DYFYNIAD A'R LLUN?

Logo *Bywyd i Bawb* - Apêl Undeb yr Annibynwyr Cymraeg dros Bobl Madagascar yw'r llun yn y cefndir. Mae'r dyfyniad yn bennill o emyn mewn Malagaseg sy'n gyfarwydd iawn i ni yn Gymraeg. Mae dros 26 miliwn o bobl yn byw ym Madagascar. Iaith y wlad yw Malagaseg ac mae'n cael ei siarad gan tua thri chwarter o'r boblogaeth, Dyma gyfle i chi gymharu'r testunau Cymraeg a Malagaseg!

Misy ny mpanavotra, Jesoa, Zanak'Andriamanitra, Zanak'ondry sarobidin'Andriamanitra, Mesia, Masina.	Y mae in Waredwr, Iesu Grist Fab Duw, werthfawr Oen ei Dad, Meseia, sanctaid, sanctaid yw.
Misaotra anao ry Ray ô, Ny nanomezanao ny Zanakao, Ary nametrahanao ny Fanahinao, Mandra-pahavita ny asa eto an-tany.	Diolch, O Dad nefol, am ddanfôn Crist i'n byd, a gadael dy Ysbryd Glân i'n harwain ni o hyd.
Rehefa mijoro eo amin'ny voninahitra aho, Ho hitako ny endriny, Ary any no hanompoako ny mpanjakako mandrakizay, Ao amin'io Toerana Masina io.	Yna caf ei weled ryw ddydd yn y ne' a'i addoli ef yn Frenin yn y sanctaid le.
Misaotra anao ry Ray ô, Ny nanomezana ny zanakao, Ary nametrahanao ny Fanahinao, Mandra-pahavita ny asa eto an-tany.	Diolch, O Dad nefol, am ddanfôn Crist i'n byd, a gadael dy Ysbryd Glân i'n harwain ni o hyd.

Cyfansoddwyd yr emyn *There is a Redeemer* a'r dôn gan yr Americanes Melody Green → ond dywedir mai'i diweddar ŵr, Keith Green, oedd yn gyfrifol am yr ail bennill. Yn ôl *Cydymaith Caneuon Ffydd* roedd gwreiddiau'r cyfieithydd Cymraeg, Miriam Davies (?1937-97) yng Nghwmlllynfell, Sir Gâr. Ar ôl priodi ymgartrefodd ar fferm Tir Pount, Nant-y-caws, Caerfyrddin, gan fagu wyth o blant. Roedd yn aelod ffyddlon yn yr Eglwys Efengylaidd yng Nghaerfyrddin.




Carys Morgans, Swyddog Cyswllt y Gefeillio *yn cyflwyno...*



NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

Oedfa Weddi a Myfyrdod Dechrau'r Flwyddyn

Eleni cynhaliwyd yr oedfa yn Noddfa dan arweiniad y Parchedig Mererid Mair. Yn dilyn yr oedfa, trafodwyd gweledigaeth y Cyngor Eglwysi i'r flwyddyn newydd



Wythnos Weddi a Myfyrdod

Yng nghapel y Maes y cynhaliwyd oedfa ddwyieithog yr Wythnos . Cymerwyd rhan gan eglwysi Ebeneser, Salem, Capel y Maes, Seilo, Llanbeblig /Santes Fair a Noddfa.

Y Gymdeithas

Cafwyd noson arbennig yng ngofal Angharad

Price. Soniodd am gefndir ei nofel *O! Tyn y Gorchudd*, y nofel a enillodd iddi'r Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Tyddewi yn 2002.



CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN CWRDD CHWARTER

Dydd Iau, 14 Mawrth 2019 – Nebo Llanpumsaint
10.30 a 1.30



DATHLIADAU GŴYL DEWI CAERFYRDDIN



Dydd Sul 24 Chwefror 2019
GWASANAETHAU GŴYL DEWI

Yn y bore am 10 ym Mhenuel
Yn yr hwyr am 5 yn Eglwys Crist
Gweler y manylion pellach yn y Suliadur



Dydd Sadwrn 2 Mawrth 2019 **PARÊD GŴYL DEWI**

Ymgynnull yn Eglwys San Pedr o 10 o'r gloch ymlaen lle bydd coffi a chyflwyniadau cerddorol gan Gôr Plant Myrddin. Yna, am 11 o'r gloch fe fydd y Cyng. Emlyn Schiavone, Maer Tref Caerfyrddin yn arwain Parêd i ganol y dref dan arweiniad Band Chwyth Caerfyrddin. Mae croeso agored i unigolion, teuluoedd a mudiadau o bob math i ymuno yn y Parêd a dod â'u baneri i'w chwifio. Bydd llwyfan a phabell perfformio yn y Clos Mawr ac un arall wedyn yn Rhodfa Santes Catrin. Bydd eitemau amrywiol trwy gydol y dydd ar y ddau lwyfan ynghyd â digwyddiadau ymylol eraill a gaiff eu hysbysebu o hyn i Wyl Dewi.

Nos Fercher, 27 Chwefror 2019 **TALWRN Y BEIRDD**

Canolfan yr Egin am 7.30 gyda Mererid Hopwood a Tudur Dylan Jones yn beirniadu cyfansoddiadau Timau'r Ysgol Farddol, Tîm Y Priordy a Thim Ffostrasol.

DIGWYDDIADAU ERAILL

Bydd digwyddiadau yn y **Llyfrgell** ac yn **Oriel Myrddin** a'r **Farchnad** yn ystod yr wythnos hefyd a lawnsir y mudiad **Access Cymru** yn **Neuadd San Pedr** amser cinio 1 Mawrth gyda Chawl a Chân o 12 o'r gloch ymlaen.

Bydd taflenni yn cael eu dosbarthu i hysbysebu'r holl ddathliadau ymlaen llaw



CYMANFA GAROLAU

Cyfeiriwyd at lwyddiant y Gymanfa Garolau a gynhaliwyd yn y Priordy ar 15 Rhagfyr 2018 yn Rhifyn Ionawr 2019. Mae'r swm a godwyd at elusen Amser Justin Time er cof am Alison, merch Ann Griffiths dros £1600 erbyn hyn. Diolch i bawb a gyfrannodd ym mhob rhyw ffordd i'r ymdrech arbennig hon..



DYLETSWYDDAU GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS



Chwefror		Mawrth	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Sulwyn Thomas	Adrian Evans	Alun Charles	Wyn Evans



BLODAU



Chwefror	3	Jaqueline Saywell	Mawrth	3	Mair Meredith
	10			10	
	17	Ann Thomas		17	Eira Phillips
	24			24	
				31	Nansi Hayes



PARATOI'R BWRDD CYMUN



Chwefror	3	Bore	Meleri Llwyd O'Leary a Meinir Jones
Mawrth	3	Bore	Rhian Pritchard-Franklin a Rachel Davies



YMWELWYR



Ionawr / Chwefror	Janet Davies a Gloria Evans
Mawrth / Ebrill	Rhian Evans ac Eirlys Jones Henry a Bronwen Wilkins



DARLLENWYR



Chwefror	3	Elinor W Reynolds	Mawrth	3	Elen Marks
	10	Gill Owens		10	PIP
	17	Dr Huw Michael		17	Chris Lloyd
	24			24	Jayne Woods
				31	Mamau



CYHOEDDWYR



Chwefror	Eirlys Jones	Mawrth	Philip Jones
----------	--------------	--------	--------------



AR SUL CYNTAF y flwyddyn newydd, croesawyd aelod newydd, yn y Priorddy, sef y Parchedig Rosan Saunders. Bu'n weinidog yn y Tabernacl, Ffair-fach, Seilo, Pen-y-banc a Saron Llanarthne ac yna'r Tabernacl, Porthcawl cyn ymddeol. Treuliodd hefyd rai blynyddoedd yn weithiwr ieuencid gydag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg rhwng y cyfnodau hyn. Dymunwn bob hapusrwydd iddi yn ein plith.

Llongyfarchiadau mawr i Rhyswen a Huw Michael ar ddod yn fam-gu a thad-cu unwaith eto. Ganed bachgen bach, **James Alexander** i **Meryl a Richard Turner** ar **9 Ionawr 2019** yn yr ysbyty yn **Guildford** a brawd i **Beau Lloyd**. Ein dymuniadau gorau i'r teulu.



Mae Margaret Jones, un o noddwyr y Papur y mis hwn, yng Nghartref Erw Hir ar hyn o bryd. Ein cofion cynhesaf ati a'n diolch iddi hefyd am gofio'r Papur. A'n cofion yn ogystal at bawb sy'n anhwylyd y dyddiau hyn mewn unrhyw fodd.

Bu Aled Evans, Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden ac Addysg Gydol Oes Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot,, ar **BBC Wales Today** yn trafod rhai o'r pryderon sy'n codi ynghylch y cwricwlwm newydd i ysgolion a fydd yn dechrau cael ei gyflwyno yn 2022. Ac un nos Sul gwelwyd nifer o'r Priorddy yn y gynulleidfa yng Nghapel Newydd Llandeilo ar **DCDC** ar **S4C**. Bu Sulwyn Thomas ar **Raglen Ifan Evans** ar **Radio Cymru'n** sôn am ddyddiau ysgol. Ac roedd Sulwyn yn darlledu o Ganolfan y BBC yng Nghaerfyrddin, sef yr union adeilad lle treuliodd ei ddyddiau ysgol gynradd!. Roedd Catrin Haf Williams yn un o dri ar **Bwrw Golwg** ar **Radio Cymru** yn trafod holl ansicrwydd y flwyddyn newydd, yn enwedig mewn perthynas â chrefydd a Christnogaeth, gwleidyddiaeth a'r amgylchedd. Ac ar **Heno** ar **S4C** un noson gwelwyd Iris Griffiths yn siarad am ei mwynhad yn cael bod yn rhan o'r cwmni diddan sy'n gweu yng Nghartref Plas-y-dderwen a thrwy hynny'n helpu'r mudiad Oxfam. Ar **Heno** hefyd bu Peter Hughes Griffiths yn siarad yn Neuadd y Ddraig Goch, Dre-fach, Felindre yn noson lansio'r pentref fel Pentref Diwylliant Sir Gâr 2019 yng nghynllun blynyddol y Cyngor Sir.. Ac ar Sul olaf y mis bu Rebecca Hayes ar raglen **Dewi Llwyd ar Fore Sul** ar **Radio Cymru'n** trafod cynnwys y papurau a'r gwefannau.



I GLOI, llongyfarchiadau i'r to ifanc am wneud mor dda ym Mabolgampau MIC, gan gipio'r prif wobrwyon yn yr oedran uwchradd..

Clywsom hefyd fod Gwenan Fflur wedi'i dewis yn gymnast mwyaf addawol y flwyddyn yn Ysgol Gymnasteg



Caerfyrddin Cafodd Gruffudd Owen wobwr chwaraewr y flwyddyn tim criced dan 11

Cymru am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae bellach yn aelod o academi criced Morgannwg ac yn cael hyfforddiant gan Mathew Maynard a Steve James ac eraill yng ngerddi Soffia. Da iawn bob un ohonoch a phob lwc i'r dyfodol!.



Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mawrth i'n Gweinidog neu Alun Charles

CYDYMDEIMLAD

Mynegwn ein cydymdeimlad â Danny a Gill Owens ar golli ewythr i Gill, sef David Thomas (Dai Talog) ar 30 Rhagfyr 2018. Cofiwn am Muriel, ei briod, y llyserched a'r teulu oll yn eu hiraeth a'u galar.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â John a Mair Meredith ar golli cefnder ifanc i Mair, sef Ian Cerith Thomas o Frynman, yn ddisymwth iawn ar 15 Ionawr 2019. Cofiwn am Nia, ei briod, Arria Fflur, ei ferch, a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth lem.

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Catrin Wyn Davies, Elinor Wyn Reynolds a Catrin Heledd Jones am y lluniau'r mis hwn



CLWB GWYLIAU MIC

Hanner Tymor Chwefror

25-27 Chwefror 2019 - Neuadd Pontyberem

10:30 - 12:30. Mynediad am ddim.

gemau; cystadlaethau; gwobrau; crefft; hwyl a sbri.

Croeso cyntes i blant B 2- 6.

CWIS IONAWR ATEBION

**1. Isop 2. Iago 3. Iddewig 4. Impio 5. Isaac 6. Iraidd 7. Ismael
8. Iscariot 9. Isfi 10. Idala**



Y SULLIADUR



Chwefror	3	Bore Nos	Ein Gweinidog Ein Gweinidog	Cymun
	10	Bore	Ein Gweinidog	
	17	Bore	Ein Gweinidog	
	24	Bore Nos	Oedfa Gŵyl Dewi Undebol yng nghwmni'r Plant a'r Bobl Ifainc am 10 ym Mhenuel Oedfa Gŵyl Dewi Undebol yng ngofal Gweinidogion ac Offeiriad y Dref am 5.00 yn Eglwys Crist	

Mawrth	3	Bore Hwyr	Ein Gweinidog Ein Gweinidog	Cymun
	10	Bore	Cwrdd yng ngofal PIP (Pobl Ifainc y Priordy) a'n Gweinidog	
	17	Bore P'nawn	Y Parchedig Guto Llywelyn Oedfa i'r Ofalaeth am 2 ym Mancyfelin gyda'r Parchedig Guto Llywelyn	
	24	Bore Hwyr	Ein Gweinidog Perfformiad o Groeshoeliad John Stainer am 6 <i>Manylion y tu mewn</i>	
	31	Bore	Oedfa Deulu ar Sul y Mamau gyda'n Gweinidog	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC								
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant GGD – Gwasanaeth Gŵyl Dewi OD – Oedfa Deulu								
Chwefror				Mawrth				
3	10	17	24	3	10	17	24	31
✓	✓ PIP	✓	GGD	-	✓	✓	✓	OD

Y GYMDEITHAS

RICHARD MORGAN

Aberystwyth

Nos Lun 4 Chwefror 2019 – 7 o'r gloch

Y Festri, Y Priordy

Cymdeithas y Tair Eglwys (Y Tabernacl,

Caerfyrddin, Bethania, Talog, Noddfa,

Foelcwan) yn ymuno â ni

